## Nehemeia

Mae llyfr Nehemeia yn parhau â storïau Esra ac yn mynd â hwy ymhellach. Roedd y bobl

### Dyfyniadau i ysbrydoli

Dywedais, "O Arglwydd Dduw y nefoedd, y Duw mawr ac ofnadwy, sy'n cadw cyfamod ac sy'n ffyddlon i'r rhai sy'n ei garu ac yn cadw ei orchmynion."

*(Nehemeia 1.5)*

Yna fe ddwedodd wrthynt, "Ewch, bwytewch ddanteithion ac yfwch win melys a rhannwch â'r sawl sydd heb ddim, oherwydd mae heddiw yn ddydd sanctaidd i'n Harglwydd; felly, peidiwch â galaru, oherwydd llawenhau yn yr Arglwydd yw eich nerth."

*(Nehemeia 8.10)*

Gwrthodasant wrando, ac nid oeddent yn cofio dy ryfeddodau a wnaethost iddynt. Aethant yn ystyfnig a dewis arweinydd er mwyn dychwelyd i'w caethiwed yn yr Aifft. Ond yr wyt ti'n Dduw sy'n maddau yn raslon a thrugarog, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb, ac ni wrthodaist hwy.

*(Nehemeia 9.17)*

## Ynglŷn â'r Awdur

Mae traddodiad Iddewig yn dweud mai Esra ysgrifennodd I a II Chronicl, Esra a Nehemeia.

Mae archwiliadau mwy diweddar o'r llyfr, fodd bynnag, wedi dod i'r casgliad ei bod yn llawer mwy cymhleth na hynny. Mae'r pedwar llyfr (I a II Chronicl, Esra a Nehemeia) yn ymddangos fel pe baent wedi eu casglu at ei gilydd o amrywiaeth eang o ffynonellau. Os edrychwch yn ofalus wrth i chi ddarllen, efallai y gallwch sylwi ar ambell i asiad yn y testun.

*Beth wyddom ni amdano?*

Ychydig iawn a wyddom pa bobl wnaeth yn y diwedd dynnu'r holl linynnau at ei gilydd yn y pedwar llyfr yma.

Rydym yn gwybod ychydig am brif gymeriad y llyfr – Nehemeia. Ei enw yw'r fersiwn hir o'r enw Nahum, a'i ystyr yw Duw'n cysuro. Roedd wedi codi i sefyllfa ddylanwadol ym Mhersia fel gwas sifil ac wedi defnyddio'r sgiliau hyn er mwyn helpu i ailadeiladu ei Jerwsalem annwyl. Yn 2.6 fe wnaeth ymddangos gerbron y frenhines. Gan mai dim ond eunuchiaid oedd yn cael caniatâd i fod ym mhresenoldeb y frenhines, mae rhai yn tybio fod Nehemeia hefyd yn eunuch.

### Sut cafodd ei strwythuro?

| | |
|---|---|
| 1.1-7.73a | Mae Nehemeia yn dychwelyd i Jerwsalem i ailadeiladu muriau'r ddinas (a wnaeth er gwaethaf gwrthwynebiad cryf) |
| 7.73b-10.39 | Darllenodd Esra'r gyfraith ac arwain y bobl i adnewyddu eu |

## Cadwch lygad am…

Un o'r themâu allweddol yn Nehemeia yw gweithredu cymunedol - arweiniodd Nehemeia ac Esra y bobl yn ôl i berthynas â Duw ond hefyd eu hannog i weithio gyda'i gilydd er lles y ddinas. Edrychwch am bwysigrwydd cymuned drwy'r llyfr.

Yn yr un ffordd ag yn Esra, mae'r cymal 'ffafr fy Nuw' yn digwydd fwy nag unwaith. Myfyriwch ar y defnydd o'r cymal hwn pan welwch y geiriau (maent yn dod yn ystod yr ychydig benodau cyntaf).

Mae gweddi yn bwysig iawn yn y llyfr hwn ac yn Esra. Sylwch ar y weddi pan fydd yn digwydd a sut mae Esra'n gweddïo.

## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Mae Esra a Nehemeia yn ymdrin yn ymarferol gyda'r thema o adferiad ar ôl trychineb llwyr.

Myfyriwch wrth i chi ddarllen ar y thema o adferiad. Allwch chi ddysgu oddi wrthynt sut mae adferiad yn digwydd a beth sydd ei angen i helpu adferiad i ddigwydd?

Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod